

GOGLEDD CYMRU AC EWROP

BUDDSODDI MEWN DYFODOL MWY DISGLAIR AR GYFER GOGLEDD CYMRU

RHIFYN 2: GAEAF 2014/15

Cynhyrchwyd gan Dim Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

MANTEISIO AR EIN CRYFDERAU

Manteisio ar asedau
Gogledd Cymru
i hybu twf
economaidd



Tirwedd a'r Amgylchedd
Cynyddu potensial economaidd yr amgylchedd
a'r dirwedd syfrdanol.

Treftadaeth, Diwylliant ac Iaith
Gwneud y mwyaf o'n hadnoddau diwylliannol a
hanesyddol eithriadol ac amrywiol.



MAE **BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD** CYMRU YN DWYN YNGHYD CHWE CHYNGOR LLEOL Y RHANBARTH I SBARDUNO TWF ECONOMAIDD AR DRAWS Y RHANBARTH.

Manteisio ar gryfderau Gogledd Cymru i hybu datblygiad economaidd



Yn ystod y chwe blynedd diwethaf, mae'r buddsoddiad gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (dros £279 miliwn gan gynnwys £154 miliwn o arian Cydgyferiant) yn helpu i greu'r amgylchedd priodol ar gyfer twf economaidd yng ngogledd Cymru. Mae dros £56 miliwn, gan gynnwys dros £25 miliwn o arian Cydgyferiant, o'r buddsoddiad hwn wedi'i ddefnyddio yn y rhanbarth i hybu diwydiant twristiaeth gweithgarwch awyr agored a threftadaeth ddiwylliannol y rhanbarth.

Siaradwn â'r Cynghorydd Dilwyn Roberts, Cadeirydd Bwrdd Economaidd Gogledd Cymru, am y gwahaniaeth y mae'r buddsoddiad yn ei wneud:

Mae gogledd Cymru'n enwog am fod yn gyfoethog iawn o ran ei thirwedd, ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith unigryw. Mae sicrhau bod y rhanbarth yn elwa ar ei asedau gwerthfawr mewn ffordd gynaliadwy yn ganolog i'n cynlluniau i ddatblygu economi'r rhanbarth. Cydnabyddwn y gweithgareddau awyr agored a'r dreftadaeth ddiwylliannol sydd gan ein rhanbarth i'w cynnig fel maes twf allweddol yn ein diwydiant twristiaeth ehangach.

Rydym hefyd mewn sefyllfa i fanteisio ar ystod o gyfleoedd a ddaw yn sgil ein hadnoddau naturiol, gan gynnwys ymchwil wyddonol, cynhyrchu ynni a chynhyrchion newydd a fydd yn sicrhau'r twf mwyaf posibl yn ein heconomi ac yn helpu gogledd Cymru i gystadlu ar raddfa fyd-eang.

Rydym eisoes yn gweld canlyniadau cadarnhaol buddsoddiad Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ein diwydiant twristiaeth gweithgareddau awyr agored a threftadaeth ddiwylliannol sydd wedi ein helpu, mewn partneriaeth â'n busnesau a'n cymunedau, i ddatblygu a gwella'r hyn a gynnigir yn lleol i ymwelwyr mewn lleoliadau a safleoedd amrywiol ar draws y rhanbarth. Mae dros 320,000 o bobl wedi ymweld â'r safleoedd a gefnogir gan y buddsoddiad hwn hyd yma, gan gyfrannu at ein diwydiant twristiaeth cyffrous sydd eisoes yn cynhyrchu £1.8 biliwn ar gyfer economi gogledd Cymru bob blwyddyn.

Y dirwedd a'r amgylchedd

Mae manteisio ar ein mynyddoedd panoramig, bryniau, coedwigoedd, arfordir syfrdanol a llynnoedd yn dechrau dwyn ffrwyth.

Mae pecyn o gynlluniau, gan gynnwys Canolfan Rhagoriaeth Beicio Conwy a Sir Ddinbych a Chanolfan Rhagoriaeth Eryri, a gefnogir yn y rhanbarth o dan brosiect Twristiaeth Gynaliadwy

Croeso Cymru, yn dangos rhai manteision amlwg iawn. Ar draws y rhanbarth, mae dros 220,000 o ymwelwyr wedi manteisio ar rai o'r gweithgareddau beicio a genweirio gorau y gall y diwydiant gweithgareddau twristiaeth awyr agored eu cynnig.

Mae gwell hygyrchedd o amgylch arfordir Ynys Môn hefyd wedi denu 160,000 o ymwelwyr ychwanegol i'r Ynys yn sgil gwella'r seilwaith hamdden arfordirol presennol a chreu seilwaith newydd trwy Brosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn.

Datblygiad allweddol arall a fydd yn sbarduno twristiaeth yn y rhanbarth yw Academi Hwyllo Genedlaethol Pwllheli. Bydd y prosiect yn creu canolfan gweithgareddau a chwaraeon dŵr o safon fyd-eang a fydd yn denu cystadlaethau hwyllo cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn addo denu miloedd o ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn.

Treftadaeth, diwylliant, iaith

Yn ogystal â'i gyfoeth naturiol, mae gan Gogledd Cymru safleoedd treftadaeth a diwylliannol eithriadol, caerau treftadaeth y byd, canolfannau diwylliannol, chwareli llechi ac iaith fyw a ffyniannus i'w diogelu a'u datblygu er lles y rhanbarth.

Mae buddsoddiad Cronfeydd Strwythurol wedi'i ddefnyddio yng ngogledd Cymru i roi bywyd i'r gorffennol trwy ddulliau dehongli amgen, hyrwyddo a marchnata er mwyn cynyddu gwerth economaidd a diwylliannol treftadaeth gymaint â phosibl a gwella'r profiad hanesyddol a diwylliannol i ymwelwyr.

Mae safleoedd treftadaeth a diwylliannol a gefnogir o dan y cynlluniau Ein Treftadaeth, Mona Antiqua a Thywysogion Gwynedd, yn rhan o Brosiect Twristiaeth Dreftadaeth CADW, wedi denu dros 155,000 o ymwelwyr hyd yma.



HWB TREFTADAETH

Amcangyfrifir bod ymwelwyr â safleoedd a gefnogir gan Brosiect Twristiaeth Dreftadaeth CADW yn cyfrannu £19.3 miliwn y flwyddyn at economi Cymru, gan gefnogi dros 1,000 o swyddi.

HWB AWYR AGORED

Amcangyfrifir bod twristiaid sy'n ymweld â gogledd Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn cyfrannu £213 miliwn at economi'r rhanbarth bob blwyddyn.



Ribride sy'n gweithredu o Bier Biwmares sydd wedi'i wella

TIRWEDD A'R AMGYLCHEDD

Buddsoddwyd mewn gwella'r gweithgareddau twristiaeth awyr agored a gynigir yng ngogledd Cymru trwy fanteisio'n llawn ar ein tirwedd a'n hamgylchedd naturiol syfrdanol, gan roi cyfle am antur drwy gydol y flwyddyn.

I wneud y mwyaf o'r cyfoeth naturiol hwn, mae canolfannau rhagoriaeth wedi'u creu ar draws y rhanbarth. Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi sefydlu'r Ganolfan Rhagoriaeth Beicio ac mae gan Eryri'r Ganolfan Rhagoriaeth Un Antur Fawr. Bydd Pwllheli'n gartref i'r Academi Hwyllo Genedlaethol, a cheir Canolfan Rhagoriaeth Twristiaeth Arfordirol newydd yn Aberdaron.

Mae adnewyddu Pier Biwmares, yn rhan o brosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, yn dangos sut y gall y gwaith hwn gael sgil-effaith ar yr economi ehangach. Roedd y gwaith wedi galluogi busnesau fel Rib Ride, sy'n arbenigo mewn teithiau hwyllo antur, i weithredu o Fiwmares a denu mwy o bobl i'r dref.



Arwyddion dehongli Tywysogion Gwynedd

TREFTADAETH, DIWYLLIANT AC IAITH

Buddsoddwyd Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd mewn cynyddu cymaint â phosibl ar werth economaidd asedau a hanes treftadaeth lleol a gwella'r gweithgareddau twristiaeth treftadaeth ddiwylliannol a gynigir yng ngogledd-orllewin Cymru, gan roi bywyd i'r gorffennol.

Defnyddiwyd buddsoddiad yn y prosiectau Ein Treftadaeth, Tywysogion Gwynedd a Mona Antiqua i annog ymwelwyr i archwilio tirwedd treftadaeth ddiwylliannol Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, ac i ddatblygu dull cyson o ddehongli ar draws yr holl safleoedd sy'n bwysig yn hanesyddol.

Datblygwyd llwyfannau digidol i hyrwyddo a marchnata'r dreftadaeth ddiwylliannol sydd gan ogledd Cymru i'w chynig i'r byd ehangach er mwyn denu mwy o ymwelwyr, cadw ymwelwyr yn yr ardal am gyfnod hwy, a chynyddu gwario gan ymwelwyr yn yr economi leol.

ACADEMI'N DATBLYGU

Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar Academi Hwyllo Genedlaethol a Chanolfan Ddigwyddiadau Pwllheli, sy'n werth £4 miliwn, yn rhan o'r pecyn ehangach o £8.3 miliwn a sicrhawyd gan Gyngor Gwynedd i gryfhau'r diwydiant morol a hwyllo lleol.

Disgwylir i'r ganolfan newydd hon, a ariennir yn rhannol trwy Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Rhaglen Cydgyferiant, agor yn ystod yr haf 2015, a bydd yn cynnal digwyddiadau a rhai o'r cystadlaethau hwyllo gorau yn y byd.

Dywedodd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Economi: "Rydym yn falch o'r hyn sydd gan Bwllheli i'w gynnig i'r diwydiant hamdden ac awyr agored ac yn cydnabod bod yr Academi Hwyllo Genedlaethol yn hanfodol i gryfhau'r diwydiant hwn er budd y gymuned a'r economi leol."

www.plasheli.org



Disgwylir i Academi Hwyllo a Chanolfan Ddigwyddiadau Pwllheli agor yn 2015

ESTYNIAD AR GYFER PROSIECT ARFORDIR



Mae prosiect a fydd yn gwella buddion economaidd arfordir Ynys Môn wedi'i ymestyn hyd at fis Mehefin 2015.

Mae prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn, sydd eisoes wedi denu mwy na 160,000 o ymwelwyr ychwanegol i'r arfordir, wedi cael £1.3 miliwn arall i ddatblygu'r cyfleoedd ar y tir ac ar y môr ymhellach o amgylch arfordir trawiadol yr ynys.

Bydd y datblygiadau'n cynnwys gwelliannau mynediad ac esthetig ym Mae Trearddur, Porth Dafarch, Rhosneigr a Bae Cemaes.

Yn ogystal, cynhaliodd y prosiect gyfres o sesiynau blasu chwaraeon dŵr rhad ac am ddim ym Mhorthaethwy, Rhosneigr, Amlwch a Phorth Dafarch i annog pobl i brofi'r cyfleoedd hamdden amrywiol sydd gan Ynys Môn i'w chynnig.



Porth Dafarch



CARTREF NEWYDD I GANOLFAN FEICIO

Mae prosiect menter gymdeithasol llwyddiannus yn y Rhyl wedi symud i'w gartref newydd.

Mae Hwb Beiciau Rhyl, a sefydlwyd ym 1989, wedi adleoli ei fusnes hurio beiciau i gyfleusterau newydd y glannau yn Harbwr Foryd (a ariannwyd o dan y cynllun gwella Adfywio Ffisegol yng Ngogledd-orllewin Cymru) sydd ar rwydwaith llwybr beicio Sustrans. Mae'r ganolfan yn cynnig ystod gynhwysfawr o ategolion a beiciau i'w hurio, yn ogystal â chaffi newydd sbon i'r cyhoedd.

Mae'r prosiect yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu, gan ganiatáu iddynt ryngweithio mewn amgylchedd manwerthu cyfeillgar.



HWB TWRISTIAETH ANTUR I OGLEDDEDD CYMRU

Mae ffigurau newydd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod gweithgareddau twristiaeth awyr agored yng ngogledd Cymru yn werth £213 miliwn y flwyddyn i economi'r rhanbarth.

Dywedodd y Gweinidog Twristiaeth, Edwina Hart: "Mae gogledd Cymru yn cynnig ystod eang o weithgareddau awyr agored a chyfleoedd antur i ymwelwyr, ac mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae wrth ddenu ymwelwyr i Gymru. Mae'r sector hon wedi dod yn fwyfwy poblogaidd yn ddiweddar oherwydd y galw am brofiadau a gwyliau ar gyfer ffordd arbennig o fyw."

Mae'r Prosiect Twristiaeth Awyr Agored, a gefnogir gan yr Undeb Ewropeaidd, yn cyfrannu at hyn trwy hybu twf pellach y sector. Cefnogir y prosiect gan Raglen Iwerddon-Cymru 2007-2013 ac mae'n cynnwys chwe sefydliad, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Partneriaeth Awyr Agored Gogledd-orllewin Cymru a phartneriaid yn Iwerddon. Mae'r prosiect yn ceisio deall yr heriau a'r rhwystrau a brofir gan ddarparwyr, hyrwyddo a datblygu cyfleoedd hyfforddi, galluogi rhannu arfer gorau ac archwilio cyfleoedd newydd ac arloesol.

www.outdoortourism.org





AR Y LLWYBR IAWN

Traciau'r Gors yn y Rhyl yw cynnig diweddaraf gogledd Cymru i'r byd beicio.

Mae'r llwybr beicio mynydd hwn a gefnogir gan yr Undeb Ewropeaidd yn llwybr 2km heriol, yn llawn neidiau diddorol a golygfa drawiadol dros y ffordd.

Dywedodd y Cynghorydd Brian Blakeley, Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych: "Mae Traciau'r Gors yn rhan o Ganolfan Rhagoriaeth mewn Beicio Gogledd Cymru, sy'n gweithredu fel canolfan yn y rhanbarth ar gyfer datblygu twristiaeth gynaliadwy.

Trwy ailddatblygu'r safle hwn nad oedd defnydd arno'n flaenorol, mae Traciau'r Gors wedi rhoi cyfle i ymwelwyr a phobl leol werthfawrogi'r amgylchedd newydd ac yn rhoi cyfleuster beicio rhagorol iddynt, yn ogystal â chynyddu'r cyfraniad twristiaeth at yr economi leol."

www.marshtacks.co.uk



RHOI BYWYD I HANES



Mae'r prosiect Ein Treftadaeth, a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, yn rhoi bywyd i hanes ac yn sicrhau bod cymunedau lleol ac ymwelwyr yn mwynhau profiadau a fydd yn para am gyfnod hir.

Arweinir y prosiect £1.7 miliwn gan Gyngor Gwynedd ar ran Cyngor Conwy, Parc Cenedlaethol Eryri a nifer o bartneriaid yn rhan o Brosiect Twristiaeth Dreftadaeth Cadw. Ei nod yw cynyddu gwerth economaidd treftadaeth yr ardal gymaint â phosibl trwy gynyddu nifer yr ymwelwyr a hyd a gwerth ymweliadau â'r rhanbarth.

Ymhlith ei bortffolio o brosiectau, mae wedi cefnogi gwelliannau i'r arwyddion dehongli a gwaith moderneiddio yn Ysbyty'r Chwarel yn Llanberis a'r Teithiau Pwll Dwfn a Thramffordd yng Ngheudyllau Llechi Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog, gan ganolbwyntio ar hanes cyfoethog cloddio am lechi ar hyd yr oesoedd.

I gael gwybod mwy am Ein Treftadaeth, a'r gwelliannau y mae wedi'u hariannu, ewch i:

www.treftadaetheryri.info/cy/theme/29/princes-of-gwynedd/



TREFTADAETH YNYS MÔN YN DOD YN FYW

Mae prosiect Mona Antiqua Ynys Môn wedi rhoi cyfle unigryw i becynnu treftadaeth arbennig yr ynys.

Yn rhan o Brosiect Twristiaeth Dreftadaeth Cadw, mae'r cynllun wedi mynd i'r afael ag anghenion ymwelwyr trwy ddarparu gwybodaeth am dreftadaeth yr ynys mewn fformat hygyrch.


Yn ôl arweinwyr y prosiect, sef Menter Môn, un o'r nodau allweddol oedd gwarchod treftadaeth ddiwydiannol, gymdeithasol ac amgylcheddol Mynydd Parys a gogledd-ddwyrain Ynys Môn a'i hyrwyddo i gynulleidfa ehangach.

"Mae un o safleoedd treftadaeth eithriadol yr ynys, sef y mwynglawdd copr ym Mynydd Parys, Amlwch wedi bod yn

ganolbwynt i'n gwaith. Ariannodd y prosiect Mona Antiqua waith dehongli yn y ganolfan dreftadaeth newydd (yn y llun ar y dde) a enwyd yn Adeilad y Flwyddyn yng Ngwobrau Pensaerniaeth Cymru 2014."

Agwedd arall ar y prosiect oedd creu gwefan newydd – Ynys Môn: Pont Drwy Amser – y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig. Mae'n defnyddio ymagwedd seiliedig ar stori i dehongli treftadaeth trwy ddulliau amlygyfrwng a chyfryngau cymdeithasol. Y syniad yw ysgogi twristiaeth a balchder lleol trwy ymgysylltu a defnyddwyr y safle yn lleol ac yn fyd-eang.

www.angleseyheritage.com



DILYN ÔL TROED TYWYSOGION

Mae cynllun partneriaeth rhwng Cyngor Conwy, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi creu rhwydwaith o lwybrau yn cysylltu 30 o safleoedd treftadaeth eiconig sy'n gysylltiedig â thywysogion chwedlonol Gwynedd, gan danio dychymyg twristiaid treftadaeth.

Mae'r prosiect Tywysogion Gwynedd, sydd wedi denu 46,978 o ymweliadau ychwanegol ers ei greu, yn rhan o Brosiect Twristiaeth Dreftadaeth £19 miliwn Cadw, a ariennir i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru a

Chronfeydd Cydgyferiant'r Undeb Ewropeaidd, a fydd yn helpu i gynyddu gwerth economaidd treftadaeth gymaint â phosibl trwy gynyddu nifer, hyd a gwerth ymweliadau â Chymru.

Mae'r llwybrau'n rhoi cyfle perffaith i gerddwyr ddarganfod ac archwilio cestyll, plasau a safleoedd y Tywysogion, yn ogystal â'r abatai a'r eglwysi y gwnaethant eu noddi.

www.snowdoniaheritage.info/princes



EFFAITH BUDDSODDIAD AR GAMERA


Mae Tîm Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru wedi cyhoeddi cyfres o fideos o Ewrop a Gogledd Cymru hefyd sy'n edrych ar effeithiau Cyllid Strwythurol Ewropeaidd 2007-13 ar fusnesau, cymunedau a phobl Gogledd Cymru.



TAITH I WAITH
www.bit.ly/nwconnect



**Y GRONFA
FUDDSODDI LEOL**
<http://bit.ly/lifnwww>



LLWYDDO'N LLEOL
<http://bit.ly/llwyddolleol>



**PROSIECTAU
ADFYWIO FFISEGOL**
<http://bit.ly/AdfywioFfisegol>



**CANOLFAN
RHAGORIAETH ERYRI**
<http://bit.ly/fideorhag>

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan Dim Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru ar ran Bwrdd Uchelgaais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Tîm Ewropeaidd Arbenigol, sydd wedi'i leoli yn y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, yn gweithio tuag at sicrhau bod y rhanbarth yn cael y budd mwyaf o gyllid Ewropeaidd drwy ddarparu amrywiaeth o gymorth i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd, a sicrhau y caiff ei weithredu'n effeithiol. Mae Tîmau Ewropeaidd Arbenigol yn bodoli ar draws Cymru ac mewn gwahanol sectorau, o Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

www.bit.ly/EwropGogCymru

